



ADOLYGU'R PROSIECT MENTER >

Cynllun y sesiwn

PROSIECTAU MENTER



Prince's Trust

START
SOMETHING

CIPOLWGW >

Dyma'r sesiwn olaf yn yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter'. Yn y sesiwn yma, bydd y dysgwyr yn adolygu eu prosiect menter, yn ogystal â phwysu a mesur eu cyfraniad eu hunain.



CYSYLLTIADAU A'R CWRICWLWM

- ✓ Menter (Cymru)



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A RHIFEDD

- ✓ Ysgrifennu myfyrdodau a gwerthusiadau
- ✓ Rhannu barn a syniadau



DEJNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Adolygu'r prosiect menter
- ✓ Cyfrifianellau (dewisol)
- ✓ Rhestr o adnoddau a thasgau o sesiwn 2 a/neu dderbynebaw costau'r prosiect (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWSYTERAU

- ✓ Cyflawni Prosiect Menter
 - Deilliant Dysgu: Gallu adolygu'r prosiect menter a'ch perfformiad eich hun

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Dweud beth oedd wedi mynd yn dda gyda'r prosiect
- ✓ Deall beth fyddai wedi gallu bod yn well yn y prosiect

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Cyflwyniad</u>	5 munud	<u>03</u>
<u>Adolygu a gwerthuso</u>	10 munud	<u>04</u>
<u>Dewisol: Elw/colled</u>	10-15 munud	<u>05</u>
<u>Adolygu cyfraniad</u>	10 munud	<u>06</u>
<u>Dirwyrn i ben</u>	5-10 munud	<u>07</u>



CYFLWYNIAD >



AMSER


5 munud

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Agorwch y sesiwn drwy ganolbwyntio ar yr hyn mae'r dysgwyr wedi'i gyflawni. Atgoffwch nhw beth oedd eu prosiect, sut aeth pethau, a beth rydych chi'n meddwl oedd wedi mynd yn dda.

Os oedden nhw wedi cael adborth cadarnhaol gan unrhyw un yn eich lleoliad neu yn y gymuned leol, tynnwch sylw at hyn. Dylech eu hatgoffa o unrhyw arian maen nhw wedi'i wneud, neu achos da maen nhw wedi'i helpu.

2. Dylech annog y dysgwyr i ddweud beth oedden nhw wedi'i fwynhau am y prosiect menter, sut oedd pethau wedi mynd yn eu barn nhw.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

ADOLYGU A GWERTHUSO

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu eu helpu i ddangos eu dealltwriaeth o'r meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru. Os ydy'r dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel Mynediad 3/Lefel 3 SCQF, yr unig beth y mae angen iddyn nhw ei wneud ydy enwi rhywbeth oedd wedi mynd yn dda, a rhywbeth a fyddai wedi gallu bod yn well. Mae angen i ddysgwyr sy'n gweithio tuag at y lefelau eraill roi enghreifftiau.



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Adolygu'r prosiect menter



CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Beth oedd wedi mynd yn dda gyda'r prosiect menter
- ✓ Sut byddai'r prosiect menter wedi gallu bod yn well

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Yn dilyn eich trafodaeth ynghylch sut oedd pethau wedi mynd gyda'r prosiect menter yn eu barn nhw, dylech annog y dysgwyr i bwysu a mesur hyn ymhellach ac i ysgrifennu beth oedd wedi mynd yn dda, a beth fyddai wedi gallu bod yn well yn eu barn nhw. Gallent wneud hyn ar y daflen waith 'Adolygu'r prosiect menter'.

Os oes angen rhagor o arweiniad ar y dysgwyr i wneud hyn, trafodwch beth oedden nhw wedi ceisio ei gyflawni gyda'r prosiect. Oedden nhw wedi helpu achos da? Oedden nhw wedi gweithio'n dda fel tîm? Oedd eu cynnyrch/gwasanaeth yn boblogaidd?

2. Gallech annog y dysgwyr i rannu eu barn a'u grwpiau (os oedden nhw wedi gweithio mewn grŵp) neu'r grŵp ehangach, a chymharu a oedd ganddyn nhw deimladau tebyg am sut oedd pethau wedi mynd gyda'r prosiect.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

DEWISOL: ELW/COLLED >

Bydd y gweithgaredd yma'n helpu'r dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 1/Lefel 4 SCQF a Lefel 2/Lefel 5 SCQF i ddangos eu dealltwriaeth o'r meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru. Byddai hefyd yn gallu bod yn weithgaredd da i'r holl ddysgwyr, oherwydd byddan nhw'n ystyried llwyddiant ariannol eu prosiect.



AMSER

10-15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Adolygu'r prosiect menter
- ✓ Cyfrifianellau
- ✓ Derbynebaw/Rhestr o'r costau



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyfrifo faint o elw neu faint o golled a wnaeth y prosiect menter

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dylech atgoffa'r dysgwyr mai un o ffactorau llwyddiant menter ydy gwneud arian. Mae mentrau'n cyfrifo a ydyn nhw wedi gwneud elw, a pha mor fawr ydy'r elw hwnnw, er mwyn mesur a ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus yn hyn o beth.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr beth mae elw yn ei olygu. Dylech eu hatgoffa ei fod yn golygu'r arian mae menter wedi'i wneud ar ôl i'r holl gostau gael eu tynnu. Mae colled yn golygu eu bod wedi gwario mwy o arian nag oedden nhw wedi'i wneud.
3. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i gyfrifo a oedd eu prosiect wedi gwneud elw, ynteu wedi gwneud colled. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu'r hafaliad yma ar y bwrdd gwyn/ siart troi: Yr arian rydych wedi'i wneud – costau = elw/colled.
4. Dylai'r dysgwyr fynd ati'n awr i gyfrifo beth oedd eu helw neu golled. Gallent gyfrifo hynny a'i gofnodi ar y daflen waith 'Adolygu'r prosiect menter. Byddai'n ddefnyddiol iddyn nhw gael y rhestr a/ neu'r derbynebaw o'u holl gostau, a mynediad at gyfrifiadur.
5. Os ydy'r dysgwyr yn teimlo'n hyderus i wneud hynny, gofynnwch iddyn nhw ddweud beth oedd elw neu golled eu prosiect. Cofiwch ganmol y rheini oedd wedi gwneud elw, ac atgoffa unrhyw ddysgwyr oedd wedi gwneud colled mai dyma oedd y tro cyntaf iddyn nhw roi cynnig ar brosiect menter, a'u bod yn dal wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol – ee, i'r gymuned leol, i achos da ac ati.



ADOLYGU CYFRANIAD

Bydd y gweithgaredd yma'n helpu'r dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF y cymhwyster i ddangos eu dealltwriaeth o'r meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru. Fodd bynnag, byddai hefyd yn gallu bod yn dasg fyfyrion dda i'r holl ddysgwyr, ond gallai hynny fod ar ffurf trafodaeth yn hytrach nag ysgrifennu.



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

✓ Taflen waith Adolygu'r prosiect menter



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

✓ Adolygu'ch cyfraniad chi at y prosiect menter

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dywedwch wrth y dysgwyr ei bod yn bwysig iddyn nhw bwysu a mesur eu cyfraniad personol eu hunain at y prosiect menter, yn ogystal ag adolygu'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn eu helpu i ystyried beth maen nhw'n personol yn falch ohono, ac unrhyw sgiliau maen nhw wedi'u datblygu yn ystod y prosiect.
2. Dylech annog y dysgwyr i drafod eu barn eu hunain am eu cyfraniad personol:
 - Oedden nhw wedi llwyddo i ddelio â her ar eu pen eu hunain?
 - Oedden nhw wedi datblygu unrhyw sgiliau newydd? Er enghraifft gwaith tîm, cyfathrebu, arwain
 - Oedden nhw wedi cymryd perchnogaeth dros ran benodol o'r prosiect? Sut aeth hi?
 - Ydyn nhw'n meddwl y bydden nhw wedi gallu gwneud mwy neu berfformio'n well mewn rhai elfennau?
3. Ar ôl y drafodaeth, gofynnwch i'r dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF ysgrifennu eu myfyrdodau ar y daflen waith 'Adolygu'r prosiect menter'.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

DIRWYN I BEN >




AMSER

5-10 munud

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y dysgwyr eich bod wedi cyrraedd diwedd yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter'. Dylech atgoffa pawb eu bod wedi gwneud yn dda iawn, gan ddysgu sgiliau newydd, sefydlu a rhedeg prosiect menter, a chael adborth gwych gan y gymuned leol/eich lleoliad.
2. Dylech annog unrhyw ddysgwyr sydd â diddordeb go iawn mewn menter i barhau i ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd – gyda phrosiect menter arall o bosib! Efallai y byddwch chi am ystyried sut gallai'r diddordeb yma drosi'n hunangyflogaeth neu'n yrfa fel entrepreneur.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**